



Cylchlythyr Tymor yr Hydref 2021



Annwyl Rieni/Dear Parents

Estynnwn groeso cynnes i bawb ar ddechrau blwyddyn newydd ac yn enwedig i'r plant sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf. Fe wnawn ein gorau glas i sicrhau fod pawb yn ymgartrefu'n hwylus, ond os oes unrhyw anawsterau neu rywbeth sy'n eich poeni yna cysylltwch â ni heb oedi, gan gofio mae partneriaeth yw'r broses addysgu. Edrychaf ymlaen at gyd-weithio'n agos gyda chi eleni eto wrth i ni symud Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd ymlaen gyda'n gilydd.

We extend a warm welcome back to everybody at the start of a new year and in particular the children who have started school for the first time. We will do our utmost to ensure that everyone feels at home and settles down quickly; however, if there are any difficulties please contact us without delay, since the process of education is a partnership between school and home.

I look forward to working closely with you all once again as we strive to move Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd onwards and upwards together.

Diolch/Thank you

Hoffwn ddiolch o galon i holl staff yr ysgol am eu cefnogaeth a'u hamynedd wrth i ni baratoi'r dosbarthiadau er mwyn croesawu'r disgyblion yn ôl. Mae'r staff wrth eu bodd yn gweld eich plant eto, ac yn benderfynol o wneud eu gorau glas i ddarparu'r addysg orau dros yr wythnosau a misoedd nesaf.

I would like to sincerely thank all the staff for their support and patience as we prepare the school and classrooms to welcome the pupils back. The staff are over the moon to see your children again, and are determined to do their best to provide the very best education over the coming weeks and months.

Staff Ysgol / School Staff

Hoffwn ddymuno croeso cynnes iawn i Miss Ffion Baxter sy'n ymuno â ni yn y dosbarth Derbyn/Blwyddyn 1.

We would like to extend a warm welcome to Miss Ffion Baxter who is joining us in the Reception/Year 1 class.

Am y flwyddyn ysgol 2021/2022 / For the school year 2021/2022

(Rhifau ar ddechrau'r tymor/Numbers at the beginning of term)

Miss C Jones	Meithrin (AM)	Bechgyn/Boys 10	Merched/Girls 9	Cyf/Tot 19
Miss B V Williams	Derbyn/Blwyddyn 1			
	Rec/Yr1	Bechgyn/Boys 11	Merched/Girls 17	Cyf/Tot 28
Miss H Law	Blwyddyn 1/2	Bechgyn/Boys 10	Merched/Girls 20	Cyf/Tot 30
Mrs H Chesby	Blwyddyn 3/4	Bechgyn/Boys 11	Merched/Girls 13	Cyf/Tot 24
Mrs S Rafferty	Blwyddyn 5/6	Bechgyn/Boys 17	Merched/Girls 16	Cyf/Tot 33

Presenoldeb / Attendance

100% yw'r targed ar gyfer pob unigolyn. Mae colli un diwrnod o ysgol heb reswm da iawn yn tarfu ar addysg eich plentyn yn ddiangen. Gofynnwn am eich cefnogaeth i sicrhau bod eich plentyn yn anelu i fod yn bresennol yn ysgol am bob dydd o Fedi tan Orffennaf, yn enwedig oherwydd y cyfnod o addysg ffurfiol a gollwyd llynedd.

Er hyn, os yw eich plentyn yn dost, neu yn arddangos unrhyw symptomau Covid-19, gofynnwn i chi eu cadw gartref, gan ddod yn ôl i'r Ysgol pan yn holliaich.

The attendance target for each individual is 100%. Missing one day of school without a very good reason unnecessarily disrupts your child's education. We ask for your support to ensure that your child aims to be in school every day from September until July, especially in light of the period of formal education lost last year.

However, if your child is ill, or exhibits any Covid-19 symptoms, we ask that you keep them at home, returning to School when fully healthy.

Gwaith Cartref / Homework

Bydd gwaith cartref yn cael ei osod **ar Hwb** pob dydd Gwener yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Ngynnod Allweddol 2. Bydd y gwaith yn cael eu marcio gydag adborth arlein gan bob athrawes. Os oes problem wrth i'ch plentyn gwblhau'r gwaith, cysylltwch âg athrawes eich plentyn gyda'r ebost isod am gymorth. Bydd yr athrawon yn ceisio newid llyfrau darllen y plant yn ddyddiol pan yn bosib. Mae'n hynod o bwysig bod plentyn yn cael arfer da wrth orffen gwaith cartref, a dychwelyd eu llyfrau darllen yn rheolaidd.

*Homework will be put **on Hwb** every Friday in KS2 and the Foundation Phase and will be marked with feedback by the staff. If there is a problem, your child's teacher's e-mail address is below for support. The Foundation Phase and KS2 teachers will change your child's reading book daily when possible. It is very important that children get into good habits of completing homework, and returning their reading books regularly.*

Offer Ysgol / Resources for school

A fydddech mor garedig â sicrhau bod eich plentyn yn dod â chas bensiliau i'r ysgol yn ddyddiol sy'n cynnwys yr offer ysgrifennu angenrheidiol megis ysgrifbin, pensiliau, rwber, uwch-oleuwyr a phren mesur. NI FYDD MODD I'CH PLENTYN RANNU ADNODDAU Â DISGYBLION ERAILL.

Please ensure that your child brings a pencil case to school which includes the necessary stationery such as pen, pencils, rubber, highlighters and ruler. YOUR CHILD SHOULD NOT SHARE RESOURCES WITH OTHER PUPILS.

Ysgol Iach / Healthy School

Hoffwn eich atgoffa ein bod ni'n rhan o gynllun Ysgolion Iach y Sir; felly, rydym yn apelio arnoch i **ddanfôn ffrwythau** gyda'ch plentyn yn lle siocled a chreision ar gyfer amser chwarae.

*I would like to remind you that we are part of the County's Healthy Schools Plan; therefore, could you **send fruit** in for your children to eat at playtimes instead of chocolate or crisps please.*

Chwaraeon ac Ymarfer Corff / P.E. and Games

Ar ddiwrnod ymarfer corff eich plentyn hoffwn ni ofyn i chi wisgo'ch plentyn/plant yn ei dillad/ddillad ymarfer corff, yn hytrach na dod â'r dillad i'r ysgol i newid.

On your child's/children's PE day, we kindly ask that the children wear their PE clothes to school, instead of bringing them in to school to change into.

Blwyddyn / Year	Dydd / Day	Gwisg / Clothing
Meithrin / Nursery	Mawrth / Tuesday	Trowsus loncian/legins/siorts tywyll a chrys-t gwyn <i>Dark joggers/legging/shorts and white t-shirt</i>
Derbyn Blwyddyn 1 / Reception Year 1	Iau / Thursday	Trowsus loncian/legins/siorts tywyll a chrys-t gwyn <i>Dark joggers/legging/shorts and white t-shirt</i>

Blwyddyn 1/2 / Year 1/2	Mercher / Wednesday	Trowsus loncian/legins/siorts tywyll a chrys-t gwyn <i>Dark joggers/legging/shorts and white t-shirt</i>
Blwyddyn 3/4 / Year 3/4	Mawrth / Tuesday	Siorts/legins tywyll a chrys t gwyn / <i>Dark shorts/leggings and white t-shirt</i>
Blwyddyn 5/6 / Year 5/6	Gwener / Friday	Siorts/legins tywyll a chrys t gwyn / <i>Dark shorts/leggings and white t-shirt</i>

Meddyginiaeth / Medication

A wnewch chi beidio ag anfon meddyginiaeth i'r ysgol gyda'ch plentyn ar unrhyw gyfrif? Os bydd angen meddyginiaeth ar eich plentyn os gwelwch yn dda gofynnwch i'ch meddyg am bresgripsiwn sy'n caniatáu iddo/i'w chymryd y tu allan i oriau ysgol. Os nad yw hyn yn bosibl, yna rhaid i chwi fel rhiant ddod â'r feddyginiaeth i mewn i'r ysgol eich hunan a llenwi'r ffurflen gweinyddu moddion priodol sydd ar gael gan y Pennaeth. Os yw'ch plentyn yn dioddef o Fygfa a bod eisiau defnyddio pwmp, a wnewch chi ofyn am ffurflen meddyginiaeth i'w llenwi a'i dychwelyd i'r ysgol. **Rhaid nodi enw'ch plentyn yn eglur ar y pwmp.**

Please do not send medication into school with your child on any account. If your child needs medication please ask your doctor for a prescription which allows him/her to take it outside school hours. If this is not possible, then you as a parent must bring the medicine personally into school and complete the relevant medicine administration form which is available from the Head teacher. If your child suffers from asthma and needs to use a pump, please contact the school for a medicine administration form which you complete and return to the school.

The pump must be clearly marked with your child's name.

Newid rwtîn / Change of routine

A fydddech mor garedig â rhoi gwybod drwy lythyr os bydd newid yn rwtîn eich plentyn (e.e. person gwahanol yn ei gasglu ar ôl ysgol).

Please inform the school by letter if there is a change in your child's routine (e.g. a different person collecting them from school)

Gwelliant Ysgol / School improvement

Os oes genych unrhyw awgrymiadau ynghylch gwella'r ysgol, neu helpu'r ysgol mewn unrhyw ffordd peidiwch â phetruso galw i'n gweld os gwelwch yn dda.

If you have any ideas about school improvement or can help out in school in any way, please do not hesitate to call in and see us. Thank you for your continued support.

Dillad / Clothing

Carwn eich atgoffa am bwysigrwydd labeli dillad eich plant a'u hatgoffa fod yna gyfrifoldeb arnyn nhw i ofalu am eu dillad. Gwisg ysgol ar bob achlysur. *I would like to remind you of the importance of labelling all clothing and remind the children that they have a responsibility to look after their possessions. School uniform to be worn on all occasions*

Arian Cinio / Dinner money

Rydych chi'n medru talu am ginio eich plentyn ar lein ar ôl cofrestri ar ParentPay. Mae ffurflenni cais am ginio rhydd ar gael yn swyddfa'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2021/2022 neu ar we fannau'r Sir www.broccolibob.co.uk a www.npt.gov.uk. Mae'r bwydlenni wythnosol dim ond ar gael ar wefannau'r Sir. Diolch yn fawr i'r rhieni sydd wedi talu eu dyledion arian cinio, ond mae gan rai rhieni dyled o hyd, sydd wedi cael ei thynnu mas o gyllid yr ysgol.

Rhaid talu unrhyw ddyled oedd ar gyfrif plentyn hyd at 16.07.20 yn ôl i'r ysgol ac nid ar lein. Pris cinio ysgol yw **£2.35** y dydd (**£11.75** yr wythnos). Rhaid talu am bob cinio **ymlaen llaw**.

You can pay for your child's dinners online after registering with ParentPay. Application forms for free school meals are available from the school office for the academic year 2021/2022 or are

available from the County's websites www.broccolibob.co.uk and www.npt.gov.uk. Weekly menus are only available on the County websites. Thank you to the parents who have paid their dinner money arrears, unfortunately some parents still have a debt that has come out of the school budget. Any debt accrued up to 16.07.20 has to be paid back to the school and not online. The price of a school dinner is **£2.35** a day (**£11.75** a week). All dinners must be paid for **in advance**.

Arian afal / Fruit money

Gall blant y dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 barhau i ddod â'u ffrwythau eu hunain i'r ysgol os gwelwch yn dda? Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £2 yr wythnos ar gyfer y plant meithrin os gwelwch yn dda. Bydd y rhain yn derbyn ffrwythau a thost bob bore.

Could the Reception, Year 1 and Year 2 children continue to bring their own fruit to school please? We kindly ask for a contribution of £2 a week for the nursery children please. They will receive fruit and toast each morning.

Clwb Brecwast / Breakfast Club

Bydd y clwb brecwast yn ail ddechrau ar ddydd Llun Medi'r 6ed. Bydd y drysau ar agor rhwng **8:05** a **8:15**. Peidiwch gyrraedd cyn 8.05am os gwelwch yn dda, does neb i ofalu am a goruchwylio'ch plant. Does dim mynediad i'r clwb ar ôl 8.15. Oherwydd asesiad risg ar gyfer Clybiau Brecwast gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Nedd a Phort Talbot, ac er diogelwch y plant, gofynnwn yn garedig i rieni beidio dod mewn i'r ysgol, h.y heibio'r gât gwaelod.

*Breakfast club will resume on Monday the 14th of September. Breakfast Club starts from **8:05am** with the doors closing to the children at **8:15am**. Please do not bring your children before 8.05am, there is no one on duty to supervise your children. There is no admission to the club after 8.15. Due to a risk assessment for Breakfast Clubs carried out by Neath Port Talbot County Borough Council, and for the safety of the children, parents are kindly asked not to come into schoolyard with the children, i.e. past the main gate, when they leave them for Breakfast Club.*

Manylion cyswllt / Contact details

Er mwyn sicrhau diogelwch a lles ein disgyblion, gofynnir i rieni sicrhau eu bod nhw'n hysbysu'r ysgol o unrhyw newidiadau i'w manylion personol, gan gynnwys rhifau ffôn, cyfeiriad cartref, trefniadau casglu plant / trafnidiaeth ayyb.

Yn unol â'r bwriad i gyfyngu ar y perygl o ledaenu'r firws, gofynnwn i rieni gysylltu â'r ysgol drwy ebost neu'r ffôn os hoffech drafod unrhyw agwedd o fywyd eich plentyn yn yr ysgol. Ni fydd modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb am y tro.

For the safety and wellbeing of our pupils, can all parents/guardians please ensure that the school is informed of any changes to your personal circumstances, such as changing telephone numbers, home address, collection/transport arrangements etc.

In line with our aim of limiting the virus, parents are asked to contact the school to discuss any aspect of their child's education. Face to face meetings will not be possible for the time being.

Swyddfa'r Ysgol – (01639) 720530	yggcwmnedd@npt.school
Mrs C Evans Pennaeth/Head Teacher	EvansC543@hwbcymru.net
Miss C Jones (Meithrin)	DaviesC1937@hwbbmail.net
Miss B Williams (derbyn bl1/Reception yr1)	WilliamsB248@hwbbmail.net
Miss E Jones (Bl 1/2)	JonesE3705@hwbcymru.net
Mrs H Chesby (Bl 3/4)	Norr-ChesH@hwbbmail.net
Mrs S Rafferty (Bl 5/6)	JamesS139@hwbbmail.net

Gwefan ysgol / School website
Trydar/Twitter

ygg-cwmnedd-j2bloggy.com
[@yggcwmnedd](https://twitter.com/yggcwmnedd)

Byddwn fel ysgol yn dibynnu ar eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad ar hyd y flwyddyn sydd o'n blaen. Fel ysgol anelwn at gadw aelodau'r gymuned yn iach a diogel; bwriadwn barhau i gynnal y safonau uchaf.

Edrychwn ymlaen i gydweithio'n agos gyda chi unwaith eto fel rhieni a gofalwyr.

As a school we will depend on your support and co-operation throughout the year ahead. As a school we aim to keep all members of the community healthy and safe; we intend to continue to maintain the highest possible standards in all that we do.

We look forward to working with you again as parents and carers.

Yn ddiffuant / *Yours Sincerely*

Christine Evans
Pennaeth / *Headteacher*